



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Canllawiau i geidwaid yng Nghymru a gweithredwyr y farchnad

Materion a allai atal Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion (APHA) rhag rhoi trwydded i wartheg symud o safle sydd wedi'i gyfyngu gan TB i werthiant sy'n benodol i TB ('marchnad oren')

Dogfen ganllaw yn unig yw hon ac nid yw'n cwmpasu pob senario posibl. Mae APHA yn cadw'r hawl i wrthod cais am drwydded am resymau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon.

- » Dim ond fel cynllun peilot cyfyngedig y mae Gwerthiannau Penodol TB yng Nghymru yn parhau i fod yn weithredol, nes i Lywodraeth Cymru gadarnhau y gallant barhau'n gwbl weithredol.
- » Pan ofynnir am drwyddedau y tu allan i'r amserlen ddynodedig, mae gan APHA yr hawl i wrthod er bod y fuches yn bodloni'r holl feini prawf rhestredig.
- » Rhaid i'r fferm fod yn ddaliad sydd o dan gyfyngiadau symud TB02 ar hyn o bryd.
- » Rhaid i bob anifail ar ffurflen gais y drwydded gael rhif tag clust dilys ar gyfer rhoi trwydded.
- » Rhaid i anifeiliaid gael prawf croen o fewn 90 diwrnod i'r symud gyda canlyniadau clir (nad ydynt yn berthnasol i anifeiliaid o dan 42 diwrnod).
- » Ymhlith y rhesymau cyffredin pam y gwrthodir trwyddedau mae:
 - Adweithyddion prawf croen, neu anifeiliaid wedi profi yn gadarnhaol sy'n aros i gael eu lladd ac sy'n dal ar y fferm.
 - Mae'n bryd cael prawf.
 - Ceir tystiolaeth o achos ffrwydrol o TB gyda niferoedd uchel o anifeiliaid sy'n profi yn gadarnhaol.
 - Mae'r fuches wedi cael prawf clir a dim ond un prawf pellach sydd ei angen cyn rhyddhau'r cyfyngiadau, neu fel arall gall anifeiliaid sy'n cael eu symud i uned beryglu asesiad APHA ar gyfer rhyddhau cyfyngiadau TB yn y fuches y maent yn symud ohoni.
 - Nid yw pob anifail cymwys wedi'i brofi yn y dadansoddiad.
 - Daw'r symudiad rhwng diwrnodau 1 a 2 o brawf croen, neu mae gwartheg sy'n cael prawf gwaed yn aros am ganlyniadau.